Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
Y Llwyfan
Heol y Coleg/College Road
Caerfyrddin/Carmarthen
SA31 3EQ

Cadeirydd/Chairman:
**Andrew Green**
Prif Weithredwr/Chief Executive:
**Dr Ioan Matthews**

Ffôn/Phone:
**01267 610400**
Ebost/Email:
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk
www.colegcymraeg.ac.uk

# Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil 2015/16

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 29 Medi 2014 |
| **Cyfeirnod:** | 14/04 |
| **At:** | Penaethiaid sefydliadau addysg uwch Cymru, Grŵp Ymgynghorol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cydlynwyr Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg sefydliadol. |
| **Ymateb Erbyn:** | 12 Ionawr 2015 |
| **Cyswllt:** | Dr Dylan Phillips |
| **E-bost:** | d.phillips@colegcymraeg.ac.uk |

Mae'r cylchlythyr hwn yn gwahodd ceisiadau am ysgoloriaethau ymchwil cyfrwng Cymraeg wedi eu cyllido drwy Gynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12 Ionawr 2015.

**Mae'r ddogfen hon hefyd i'w chchael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

# Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil 2015/16

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn gwahodd ceisiadau am ysgoloriaethau ymchwil cyfrwng Cymraeg, i gychwyn ar 1 Hydref 2015. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau fydd 12 Ionawr 2015.

2. Cyflwynwyd y Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil am y tro cyntaf yn 2005, ac fe'i mabwysiadwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol [y Coleg] yn dilyn ei sefydlu yn 2011. Cytunodd Bwrdd Academaidd a Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg ar reoliadau diwygiedig ar gyfer y cynllun yn Chwefror 2013 a bydd proses ymgeisio 2015/16 yn seiliedig ar y rheoliadau diwygiedig hyn. Yn y cylchlythyr hwn, amlinellir y broses ymgeisio a'r trefniadau ar gyfer cynnal yr Ysgoloriaethau Ymchwil newydd. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl, yn y dyfodol, i ychwanegu amodau a thelerau newydd i'r rheini a nodir yn y cylchlythyr hwn.

3. Ar sail y rhagolygon presennol y mae'n bosibl i'r Coleg, ar hyn o bryd, i ddarparu cyllid tan 31 Mawrth 2017. Bydd disgwyl felly i sefydliadau ymrwymo'n ddiamwys i gyllido gweddill cyfnod yr Ysgoloriaeth os na fydd cyllid pellach ar gael drwy'r Coleg (gw. cymal 12 isod).

## Egwyddorion Cyffredinol

4. Bydd y cynllun yn cyfrannu at nod strategol y Coleg o 'hyrwyddo a datblygu ysgolheictod, ymchwil a chyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg' trwy ddenu'r graddedigion disgleiriaf a mwyaf brwdfrydig bob blwyddyn at y cynllun a meithrin ymchwilwyr o'r safon uchaf.

5. Disgwylir i'r traethawd doethurol gael ei baratoi a'i gyflwyno yn y Gymraeg. Ystyrir traethodau doethurol sy'n cael eu hymchwilio, eu cyfansoddi a'u cyflwyno yn y Gymraeg yn gyfraniad gwerthfawr at ymchwil ac ysgolheictod cyfrwng Cymraeg, ac a all hefyd yn y pen draw arwain at gyhoeddiadau academaidd yn y Gymraeg. Bydd rhaid cyfiawnhau unrhyw eithriad i'r

disgwyliad hwn, gan ddangos yn y cais pa werth arall fydd i'r dyfarniad o safbwynt y Gymraeg a chyflawni nodau strategol y Coleg (gw. cymal 36 isod). Ceidw'r Coleg yr hawl i nodi mai yn y Gymraeg y dylid cyflwyno'r traethawd doethurol fel un o amodau'r ysgoloriaeth. Cyfrifoldeb y sefydliad yw gwirio gallu ymgeiswyr i gyflawni'r amod hwnnw'n llwyddiannus a bydd y sefydliad yn tystio i hynny wrth gyflwyno cais i'r Coleg.

6. I fod yn gymwys ar gyfer ysgoloriaeth, rhaid i'r ymgeiswyr fod yn raddedig o sefydliad addysg uwch cydnabyddedig. Fel arfer, bydd ganddynt radd anrhydedd yn rhan uchaf yr ail ddosbarth (2.i) o leiaf, ac wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs ôl-radd wedi ei addysgu cyn 31 Gorffennaf yn y flwyddyn pan fydd yr ysgoloriaeth yn cychwyn. Caniateir ceisiadau hefyd gan unigolion (neu wrth sefydliadau sy'n gwneud cais lle nad yw'r deiliad eto'n hysbys) a fydd yn cofrestru'n syth ar raglen ymchwil ôl-radd (h.y. heb gymhwyster ôl-radd blaenorol) dim ond lle mae hynny'n arferol oddi fewn i'r ddisgyblaeth. Bydd cymwysterau eraill yn cael eu hystyried mewn achosion eithriadol yn unig.

7. Y sefydliad lle lleolir y dyfarniad a fydd yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer arolygu deiliaid yr ysgoloriaethau. Bydd y trefniadau hyn yn cyfateb i drefniadau mewnol y sefydliadau ac i God Ymarfer yr ASA (QAA) ar gyfer Graddau Ymchwil.

**Telerau cyllido**

8. Bydd hyd at ddeg ysgoloriaeth i'w dyfarnu i gychwyn yn 2015/16.

9. Ariennir ysgoloriaethau fel arfer am gyfnod o dair blynedd ac ar gyfer cefnogi ymchwil ar gyfer doethuriaeth yn unig. Ni fydd yr ysgoloriaethau hyn yn cyllido astudiaethau gradd Meistr (heblaw pan fydd rhaid i unigolyn gofrestru'n ffurfiol ar raglen Meistr a fydd yn trosglwyddo o fewn blwyddyn i ail flwyddyn rhaglen doethurol). Ceir gwybodaeth am raglenni gradd Meistr sy'n gymwys i dderbyn Ysgoloriaethau Meistr cyfrwng Cymraeg ar wefan y Coleg.

10. Mae Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg yn gyfwerth yn ariannol ag ysgoloriaethau ôl-raddedig a ddyfernir gan y Cynghorau Ymchwil. Bydd y cynllun yn darparu cyllid ar gyfer talu'r:

    (i) ffioedd safonol i'r sefydliad, a'r
    (ii) grant cynhaliaeth a delir i'r deiliad.

    Disgwylir i sefydliadau hysbysu'r Coleg o'u ffioedd ar gyfer y flwyddyn academaidd sy'n dilyn erbyn 1 Medi.

11. Mae'r cynllun yn talu ffioedd ar gyfer talu costau tiwtora a chofrestru yn uniongyrchol i'r sefydliad. Nid yw'r ffioedd safonol yn cynnwys costau llety, y dylid eu talu o'r grant cynhaliaeth. Ni fydd unrhyw daliad ychwanegol ar gyfer costau unrhyw arholiadau, arian gwarant, neu unrhyw flaendal a ad-delir maes o law. Nid yw'r cynllun ychwaith yn talu am gostau teipio na rhwymo traethawd, nac unrhyw ffioedd perthynol i gyrsiau hyfforddi heblaw am y rheiny a drefnir o dan nawdd y cynllun ac unrhyw gostau a delir o'r cyllid ychwanegol a nodir o dan (14) isod.

12. Gan nad yw'r rhagolygon ariannol ar gyfer y Coleg tu hwnt i 31 Mawrth 2017 yn wybyddus ar hyn o bryd, nid oes modd gwarantu cyllid gan y Coleg am dair blynedd ar gyfer yr ysgoloriaethau fydd yn cychwyn yn 2015/16. Bydd y Coleg yn ymrwymo i ddarparu gwerth 18 mis o gyllid ar gyfer yr ysgoloriaethau (sef £26,788.50 ar sail cyfraddau presennol) yn y lle cyntaf. Yn amodol ar y sefyllfa gyllidebol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 bydd y Coleg yn ystyried a oes modd ymestyn y gefnogaeth hyd diwedd y dyfarniadau. Yn wyneb yr ansicrwydd hwn disgwylir i sefydliadau ymrwymo'n ddiamod i gynnal gweddill yr ysgoloriaethau a ddyfernir ar gyfer 2015/16 os na fydd modd i'r Coleg barhau i'w cyllido tu hwnt i 18 mis (neu ddyddiad cynharach os yw'r rhagolygon ariannol yn newid). Ni fydd y Coleg yn ystyried unrhyw geisiadau lle na ddarperir sicrwydd pendant fod y sefydliad yn derbyn yr amod hon.

13. Disgwylir i'r sefydliadau ddarparu cefnogaeth lawn i ddeiliaid yr ysgoloriaethau, yn gyfwerth i'r hyn a fyddai ar gael i fyfyrwyr ymchwil wedi'u cyllido drwy ddulliau eraill, e.e. swyddfa ac adnoddau cyfrifiadurol.

14. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys cyllid ychwanegol er mwyn cefnogi gwaith maes a/neu waith labordy, mynychu cynadleddau neu gyfrannu at gostau ymchwil eraill. Bydd modd hawlio hyd at £500 y flwyddyn fel arfer ar gyfer costau o'r fath, ond os bydd achos i ddarparu swm mwy sylweddol yn flynyddol, bydd rhaid nodi hynny yn y cais. Os bydd modd denu arian allanol i gyfrannu'n rhannol at y costau ychwanegol arfaethedig, dylid nodi'n glir yn y cais pa gorff fydd yn cyfrannu at y costau a darparu sicrwydd o'r cyllid a ddarperir. Mae'n bosib na fydd modd darparu cyllid ychwanegol i bob dyfarniad, ac os bydd nifer o ddyfarniadau ag iddynt gostau ychwanegol sylweddol ni fydd modd dyfarnu 10 ysgoloriaeth bob blwyddyn.

15. Ni fydd y cynllun yn ariannu 'blwyddyn ychwanegol' (a oedd yn rhan o'r cynllun gwreiddiol tan 2012/13). Bwriedir creu cynllun arall erbyn Hydref 2016, os bydd cyllid yn caniatáu, i bontio rhwng Ysgoloriaeth Ymchwil a swydd ddarlithio llawn-amser. Ni fydd y cynllun ychwaith yn ariannu unrhyw estyniadau os na fydd y ddoethuriaeth wedi ei chwblhau'n llwyddiannus oddi fewn i dair blynedd y cyllido.

**Telerau eraill**

16. Dyddiad cychwyn ysgoloriaethau 2015/16 fydd 1 Hydref 2015. Ar gyfer y cylch cyllido hwn, am y rhesymau a nodwyd yng nghymal 12 uchod, ni fydd modd gohirio'r dyddiad cychwyn tu hwnt i 1 Hydref o dan unrhyw amgylchiadau.

17. Disgwylir i ddeiliaid yr ysgoloriaethau ymgymryd ag unrhyw weithgareddau sydd yn arferol ar gyfer myfyrwyr ymchwil, megis dilyn unrhyw hyfforddiant sy'n ofynnol, mynychu cynadleddau academaidd ac, os yn berthnasol, cyhoeddi a denu nawdd allanol.

18. Bydd disgwyl i ddeiliaid gyfrannu at yr addysgu ar raglenni israddedig drwy gyfrwng y Gymraeg (hyd at 5 awr yr wythnos, neu dim mwy na 60 awr mewn blwyddyn) o fewn eu hysgolion/adrannau academaidd yn ail a thrydedd flwyddyn eu dyfarniad. Ni fydd deiliaid, fel arfer, yn ymgymryd ag unrhyw

ddyletswyddau addysgu yn y flwyddyn gyntaf. Yn yr ail a'r drydedd flwyddyn, dylai nifer yr oriau adlewyrchu natur y gwaith addysgu (a fydd fel arfer yn seminarau Rhan Un, tiwtorialau esboniadol, gwaith arddangos mewn labordy, ayyb) a'r gwaith paratoi a fydd angen. Dylai'r oriau addysgu gael eu trafod a'u cytuno gyda'r deiliad ar ddiwedd y flwyddyn academaidd flaenorol, a hefyd gyda'r Coleg. Fodd bynnag, dylid sicrhau nad yw'r gofynion addysgu yn gorlethu'r deiliaid na'u rhwystro rhag cwblhau eu rhaglen ymchwil ac ennill y cymhwyster PhD cyn gynted â phosib.

19. Bydd yr ysgol/adran academaidd yn talu'r deiliad am yr addysgu hwn fesul awr yn unol â'r cyfraddau arferol a delir i fyfyrwyr ôl-radd. Ni fydd deiliaid yn addysgu drwy gyfrwng y Saesneg o dan unrhyw amgylchiadau.

20. Bydd yn ofynnol i bob deiliad fynychu Rhaglen Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil y Coleg. Bydd hyn yn cynnwys mynychu isafswm o 14 gweithdy hyfforddi ym mlwyddyn gyntaf yr ysgoloriaeth, ac yna saith gweithdy hyfforddi y flwyddyn yn y ddwy flynedd ddilynol, yn ogystal â mynychu cynhadledd ymchwil flynyddol y Coleg yn ystod bob blwyddyn yr ysgoloriaeth.

21. Bydd yn ofynnol i bawb sy'n derbyn ysgoloriaeth gan y Coleg sefyll Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg yn ystod cyfnod eu dyfarniad (oni bai eu bod eisoes wedi cwblhau'r Tystysgrif yn llwyddiannus fel myfyriwr isrdaddedig). Yn ystod cyfnod y dyfarniad, anogir deiliaid sydd am loywi a chryfhau eu Cymraeg i ddilyn cwrs hyfforddiant ffurfiol addas oddi fewn i'w sefydliad. Bydd y Coleg yn darparu cefnogaeth hefyd ar ffurf adnoddau rhyngweithiol a chyfres o weithdai a sesiynau paratoi ar gyfer gwahanol elfennau yr asesiad.

22. Os wrth ystyried cais y teimla'r panel dyfarnu fod angen hyfforddiant ieithyddol ar yr ymgeisydd cyn y gellir argymell y dyfarniad, ceidw'r Coleg yr hawl i osod hyfforddiant ieithyddol yn amod o'r cyllido.

23. Anogir deiliaid ysgoloriaethau i gyfrannu at weithgareddau sy'n hyrwyddo darpariaeth ac ysgolheictod drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn eu disgyblaethau, gan gynnwys cyfranogi mewn gweithgareddau i hyrwyddo a

marchnata'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn eu sefydliad, a gweithgareddau cenedlaethol a drefnir gan y Coleg.

24. Arolygir cynnydd yn ofalus drwy gydol cyfnod yr ysgoloriaeth. Er mwyn gwneud hynny, bydd y Coleg yn disgwyl derbyn copi o bob adroddiad cynnydd a baratoir yn fewnol gan yr ysgol/adran academaidd neu'r sefydliad ar gyfer deiliad yr ysgoloriaeth. Os na fydd modd i'r Coleg gael mynediad i'r rheini, bydd disgwyl i'r deiliad a'r ysgol/adran academaidd gwblhau adroddiad monitro blynyddol y Coleg yn cadarnhau y bu cynnydd rhesymol yn y gwaith ymchwil a bod y deiliad yn debygol o gwblhau a chyflwyno ar amser, neu'n nodi pa gamau a gymerir i sicrhau bod y deiliad yn cwblhau yn llwyddiannus oddi fewn i amserlen ddiwygiedig.

25. Pe bai sefyllfa'n codi lle bod amodau'r cynllun yn cael eu torri mewn unrhyw ffordd, bydd y cyfrifoldebau cyllidol am yr ysgoloriaeth yn trosglwyddo o'r Coleg i'r sefydliad. Dylai sefydliadau fod yn ymwybodol, felly, y gallai fod disgwyl iddynt gynnal yr ysgoloriaeth eu hunain mewn amgylchiadau o'r fath, neu derfynu'r dyfarniad.

**Rheoliadau**

26. Mae rheoliadau llawn yn bodoli ar gyfer y cynllun, a gellir derbyn copi oddi wrth y Coleg. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn dilyn patrwm rheoliadau'r Cynghorau Ymchwil, ac yn cynnwys rheoliadau mewn perthynas â chyfnodau mamolaeth, cyfnodau o salwch, gwyliau ac ati.

**Ceisiadau**

27. Bydd hawl gan bob sefydliad addysg uwch i gyflwyno hyd at bum cais i'r cynllun hwn yn flynyddol.

28. Fel arfer, cyflwynir ceisiadau am yr Ysgoloriaethau Ymchwil ar y cyd gan y darpar fyfyrwyr a'r ysgolion/adrannau academaidd a fydd yn cartrefu'r dyfarniadau, ac yn cynnwys manylion llawn am yr ymgeisydd, y prosiect

ymchwil arfaethedig, a record yr ysgol/adran academaidd yn goruchwylio myfyrwyr ymchwil.

29. Disgwylir i ddarpar fyfyrwyr drafod eu prosiectau ymchwil arfaethedig gyda'r ysgol/adran academaidd lle bwriedir cynnal yr ymchwil. Bydd angen i'r darpar fyfyriwr ddilyn prosesau arferol y sefydliad ar gyfer cyflwyno prosiect ymchwil i'w oruchwylio gan un o ysgolion/adrannau academaidd y sefydliad. Nid oes rhaid i ymgeiswyr fod yn fyfyrwyr llawn-amser yn yr ysgol/adran academaidd lle bwriedir cynnal yr ymchwil **cyn** ymgeisio am ysgoloriaeth gan y Coleg (e.e. gall ymgeisydd fod yn fyfyriwr ôl-raddedig mewn sefydliad addysg uwch y tu allan i Gymru, yn dymuno symud o un brifysgol i brifysgol arall, neu fod wedi gadael byd addysg uwch am gyfnod a nawr yn awyddus i ail-gydio mewn astudiaethau llawn-amser). Fodd bynnag, bydd gofyn bod yr ymgeisydd wedi derbyn cefnogaeth ffurfiol yr ysgol/adran academaidd lle bwriedir cynnal yr ymchwil cyn cyflwyno cais i'r Coleg am ysgoloriaeth.

30. Ni dderbynnir ceisiadau gan unigolion heb gefnogaeth ysgol/adran academaidd o dan unrhyw amgylchiadau, a disgwylir i ffurflenni cais gael eu cyflwyno drwy law y sefydliad gyda llofnod cynrychiolydd ar ran yr ysgol/adran neu goleg/athrofa academaidd lle arfaethir cartrefu'r ymchwil, a llofnod unigolyn awdurdodig ar ran y sefydliad.

31. Bydd yr ysgoloriaethau yn agored i bob pwnc, ond cyfyngir sefydliadau i uchafswm o 5 cais yr un. Mae'r Coleg yn disgwyl i sefydliadau unigol sefydlu trefn fewnol ar gyfer derbyn ac ystyried ceisiadau ac, os oes angen, penderfynu ar broses ar gyfer dewis hyd at bum cais i'w cyflwyno. Dylai trefn o'r fath fod yn seiliedig ar amserlen glir a fydd yn galluogi'r ceisiadau i gyrraedd y Coleg mewn da bryd. Ni fydd unrhyw geisiadau a gyflwynir wedi'r dyddiad cau yn cael eu hystyried.

32. Dyfernir hyd at 10 Ysgoloriaeth Ymchwil bob blwyddyn, yn seiliedig ar:

    (i) rhagoriaeth academaidd yr ymgeisydd,
    (ii) testun / gwreiddioldeb y prosiect ymchwil arfaethedig,

(iii) profiad a record yr ysgol/adran academaidd yn cyfarwyddo gwaith ymchwil, a

(iv) chyfraniad dichonol y dyfarniad / deiliad at gyflawni nodau strategol y Coleg.

33. Mae'r Coleg hefyd yn barod i ystyried ceisiadau gan ysgolion/adrannau academaidd sydd heb adnabod deiliad addas ar gyfer yr ysgoloriaeth. Mewn ceisiadau felly dyfernir yr ysgoloriaethau ar sail y meini prawf a amlinellir yn 32 (ii), (iii) a (iv), a bydd rhaid i'r ysgoloriaeth a ddyfarnwyd cael ei hysbysebu'n agored yn y wasg. Bydd yr ysgoloriaethau hyn yn ddarostyngedig i holl amodau a thelerau'r cynllun, ac yn gorfod profi gwerth o safbwynt cyfrannu at gyflawni nodau strategol y Coleg.

34. Gellir gwneud cais am nawdd o'r cynllun hwn fel arian cyfatebol i gyllido doethuriaeth a gyllidir yn rhannol o ffynhonnell arall (e.e. cyngor ymchwil, buddsoddiad adrannol, cronfa ymchwil prifysgol, diwydiant, ayyb). Mewn ceisiadau o'r fath dyfernir yr ysgoloriaethau ar sail y meini prawf a amlinellir yn 32 (ii), (iii) a (iv), a bydd rhaid i'r cais nodi'n glir pa gorff fydd yn cyllido gweddill yr ysgoloriaeth a darparu sicrwydd o'r cyllid a ddarperir. Ni fydd y Coleg yn darparu mwy na 50% o werth ysgoloriaeth o'r math yma. Bydd yr ysgoloriaethau hyn yn ddarostyngedig i holl amodau a thelerau'r cynllun, ac yn gorfod profi gwerth o safbwynt cyfrannu at gyflawni nodau strategol y Coleg. Bydd pob ysgoloriaeth, beth bynnag fo'r trefniant cyllido, yn cael ei thrin fel un cyfrwng Cymraeg llawn.

35. Yn yr un modd, fe fydd y Coleg yn barod i ystyried rhannu cyllid dyfarniad ysgoloriaeth rhwng dau ddeiliad, ar yr amod fod y sefydliad yn darparu sicrwydd o nawdd cyfwerth i alluogi'r ddwy Ysgoloriaeth i gael eu cyllido'n llawn. Bydd holl amodau a thelerau'r cynllun yn berthnasol i'r **ddau** ddeiliad sy'n rhannu'r ysgoloriaeth. Bydd pob ysgoloriaeth, beth bynnag fo'r trefniant cyllido, yn cael ei thrin fel un cyfrwng Cymraeg llawn.

**Meini prawf**

36. Caiff ysgoloriaethau eu dyfarnu ar sail rhagoriaeth ysgolheigaidd (meini prawf 32 (i), (ii) a (iii) uchod), a chyfraniad dichonol at gyflawni nodau strategol y Coleg (maen prawf 32 (iv) uchod).

37. Gall y cyfraniad hwnnw fod at ysgolheictod a chyhoeddi, addysgu, creu darpariaeth neu adnoddau addysgiadol newydd, a/neu hyrwyddo'r pwnc fel pwnc astudio cyfrwng Cymraeg. Bydd rhaid i'r cais egluro sut y byddai'r dyfarniad yn ateb nodau strategol ac anghenion cynllunio tymor canolig cyfrwng Cymraeg yr ysgol/adran academaidd, y Coleg, a/neu'r ddisgyblaeth yn ehangach, gan alluogi'r panel dyfarnu i bwyso a mesur gwerth y buddsoddiad i'r Coleg.

38. Bydd yn ofynnol i bob cais, wrth ddarparu tystiolaeth o'r cyfraniad dichonol a ragwelir at gyflawni nodau strategol y Coleg, i ddangos sut y bydd y dyfarniad yn perthnasu i themâu allweddol Cynllun Strategol y Coleg, ac yn gyson â nodau a thargedau Cynllun Academaidd y Coleg a'r Cynllun Datblygu pwnc perthnasol.

39. Bydd y Coleg yn croesawu ceisiadau lle:

    (i) ceir tystiolaeth o brinder capasiti staffio yn genedlaethol oddi fewn i'r pwnc, a phrinder ymgeiswyr cymwys â'r profiad a/neu'r arbenigedd angenrheidiol i gael eu penodi i swyddi cyfrwng Cymraeg; a/neu
    (ii) ceir tystiolaeth bod y sefydliad yn cynllunio dilyniant ar gyfer ymddeoliad aelod o staff oddi fewn i'r ysgol/adran academaidd, ac yn bwriadu penodi olynydd a fydd yn ymgymryd â dyletswyddau addysgu a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

40. Ni fydd unrhyw ymrwymiad ar y sefydliad i greu swydd academaidd ar ddiwedd y cyfnod cyllido y gall deiliad yr ysgoloriaeth ymgeisio amdani, **heblaw** mewn achosion lle mai pwrpas y dyfarniad yw cynllunio dilyniant oddi fewn i'r ysgol/adran academaidd (fel yr amlinellir yn 39 (ii) uchod). Yn achos dyfarniadau fel hyn bydd disgwyl i'r sefydliad hysbysebu'n agored y swydd sydd yn dod yn wag yn dilyn yr ymddeoliad, ac ariannu'r swydd o'u

hadnoddau eu hunain. Ni fydd modd ymgeisio ar ddiwedd cyfnod ysgoloriaeth fel hyn i'r Cynllun Staffio Academaidd am nawdd i gyllido'r swydd.

**Cyflwyno ceisiadau**

41. Dylid cyflwyno'r ceisiadau (ar y ffurflen briodol) erbyn hanner dydd ar **12 Ionawr 2015. Rhaid i'r ffurflen gael ei chyflwyno yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Ni fydd ceisiadau sydd yn torri'r rheol hon yn cael eu hystyried.**

42. Dylid cyflwyno copi caled ar gyfer pob cais, wedi ei lofnodi gan gynrychiolydd awdurdodedig ar ran y sefydliad. Caniateir copïau electronig erbyn y dyddiad cau cyhyd â bod copi caled yn dilyn ymhen pum niwrnod gwaith. **Ni chaniateir ceisiadau hwyr o dan unrhyw amgylchiadau.**

43. Os yw sefydliadau yn ansicr o ddilysrwydd cais arfaethedig dylid cysylltu â swyddogion y Coleg am gyngor cyn 12 Rhagfyr 2014. Gwneir pob ymdrech i ddatrys unrhyw faterion cyn y dyddiad cau. Ni ellir sicrhau ymateb i ymholiadau o'r fath a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

**Dyfarnu**

44. Gall y Panel Grantiau gyfeirio rhai ceisiadau at arbenigwyr pwnc er mwyn derbyn eu cyngor ar ragoriaeth ysgolheigaidd y cais a'r ymgeisydd. Gall y Panel Grantiau hefyd benderfynu y dylid cynnal cyfweliad gydag ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd rhestr fer er mwyn pwyso a mesur cyfraniad tebygol y dyfarniad / deiliad at gyflawni nodau strategol y Coleg, ac i asesu eu gallu ieithyddol os oes amheuon.

45. Bydd Panel Grantiau'r Coleg yn ystyried y ceisiadau. Bydd argymhellion y panel yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg i'w cymeradwyo. Bydd penderfyniad y Bwrdd yn derfynol.

**Ymwadiad**

46. Bydd y Coleg yn cadw'r hawl i osod amodau a thelerau, nad ydynt o reidrwydd wedi eu nodi yn y cylchlythyr hwn, ar gyfer unrhyw ysgoloriaeth a gyllidir yn rhannol neu gyfan gwbl gan y Coleg.

47. Ar ddiwedd cyfnod yr ysgoloriaeth, gallai fod yn bosibl (ond gan nodi for y rhagolygon ariannol yn ansicr ar hyn o bryd) i sefydliadau gyflwyno cais am swydd drwy Gynllun Staffio Academaidd y Coleg, y gallai deiliad yr ysgoloriaeth ymgeisio amdani. Byddai unrhyw gais o'r fath yn cael eu hystyried yn unol â rheoliadau'r Cynllun Staffio Academaidd ac ni ellir rhoi sicrwydd, fel canlyniad, y byddai cais o'r fath yn llwyddiannus. Caiff dyfarniadau'r Cynllun Staffio Academaidd eu gwneud trwy ddilyn proses sy'n bwrpasol i'r cynllun hwnnw.